**Newyddion Diweddaraf am Gapel Hanesyddol Dolwyddelan, Capel Bethel**

Yn gyntaf, hoffem fynegi ein cydymdeimlad â theulu a ffrindiau Eurwyn Roberts, Ymddiriedolwr Capel Bethel. Roedd yn breswylydd uchel ei barch yn ein pentref. Boed iddo orffwys mewn hedd.

Mae Grŵp Gweithredu Bethel yn parhau gyda'u hymdrechion i sicrhau Capel Bethel fel ased cymunedol arwyddocaol drwy godi ymwybyddiaeth drwy'r cylchlythyr hwn, gwefan Grŵp Gweithredu Bethel a thudalen newydd ar Facebook.

https://bethel-action-group.jimdosite.com

https://www.facebook.com/profile.php?id=61568604797542

Mae syniadau ynghyd â phryderon am ddefnydd Capel Bethel yn parhau i lifo, y mae llawer ohonynt eisoes wedi'u cyhoeddi. Fodd bynnag, hoffem dynnu sylw at gyfleoedd pwysig a allai fod ar gael inni. Mae lle i ddefnyddio'r tir sydd wedi'i esgeuluso ar hyd Stryd yr Eglwys ar gyfer tai newydd, modern a fforddiadwy yn ogystal â defnydd effeithiol o brif adeilad y capel.

Y bwriad ydy ategu, nid dyblygu, y cyfleusterau a'r gwasanaethau gaiff eu darparu gan Y Gwydyr, y Pafiliwn, yr Ysgol a'r ystafell TG. Mae lle i ddatblygu, tyfu a chynnig cyfleoedd newydd yn y pentref gan gynnwys:

* Cynhyrchu refeniw drwy rentu gofod at ddibenion arddangos, darparu llety i feirdd preswyl, siop atgyweirio a dulliau eraill, er mwyn sicrhau bod dyfodol Capel Bethel yn hunan-ariannu ac yn gynaliadwy.
* Arddangos stori adroddedig o hanes Dolwyddelan gyda ffotograffau ac arteffactau sydd o'r golwg ar hyn o bryd.
* Gwybodaeth i dwristiaid. Mannau o ddiddordeb.
* Cyflogi crefftwyr lleol i wneud gwaith adnewyddu ac atgyweirio.
* Darparu gardd rhandir at ddefnydd cymunedol.

Nodyn: Mae unigolion yn y pentref yn parhau i arsylwi dirywiad allanol pellach, mwy a mwy o wydr yn disgyn o'r ffenestri a'r to sy'n dirywio sy'n bygwth y ffabrig mewnol. Mae sawl llechen wedi llithro o'r to ac maent bellach yn gorffwys yn beryglus yn y gwter.

Os ydych chi'n rhannu ein gweledigaeth, ymunwch gyda ni. Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr, arweiniad proffesiynol a rhoddion. Efallai yr hoffech chi ymuno â ni yn y cyfarfod grŵp nesaf? Cysylltwch â ni:

Ysgrifennydd BAG: Helena Wróblewska, 07828 761114,
Helena_w@btinternet.com

Cadeirydd BAG: Richard Griffin, 07736 059925,
Richard_griffin@btinternet.com

Trysorydd BAG: Jon Reynolds, 07722 040778,
Jon1reynolds@outlook.com

**Bethel Action Group (BAG) – Elusen gyfansoddiadol.**